CYNGOR SIR YNYS MÔN

Gwahoddiad i Dendro

ER MWYN DARPARU:

Darparu Arbenigedd, Sgiliau a Chymorth Galluedd Aml-ddisgyblaethol a Phroffesiynol i Raglen Ynys Ynni'r Cyngor (Datblygiad Niwclear Newydd yn Wylfa)

DYDDIAD CAU AR GYFER EGLURHAD: 17/12/2026

DYDDIAD CAU AR GYFER YMATEBION I'R TENDR: 22/12/2026

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y ddogfen hon yn ofalus ac yn llawn gan y gallai methu â chydymffurfio arwain at eich eithrio o'r Broses Gaffael neu wrthod eich Ymateb Tendr.

Mae'r ddogfen hon yn eiddo i Gyngor Sir Ynys Môn. Cedwir pob hawl. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol, na ddylid ei gopïo na'i drafod heb awdurdod penodol gan Gyngor Sir Ynys Môn neu lle sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Cynnwys

Diffiniadau 4

1.0 Cyflwyniad 6

2.0 Trosolwg o'r Tendr 6

3.0 Cyfnod y Contract 7

4.0 Proses Ddethol 7

5.0 Eglurhad 7

6.0 Amserlenni a Chyflwyno 8

7.0 Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial ("DA") 10

8.0 Gwerthuso a Sgorio 10

9.0 Amserlen 13

10.0 Ffurf y Contract 15

11.0 Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 ("TUPE") 15

12.0 Diogelu a Chaethwasiaeth Fodern 16

13.0 Addasiadau i'r Contract 16

14.0 Rhybuddion ac Ymwadiadau ..... **Error! Bookmark not defined.**

15.0 Gwarantau 17

16.0 Hawl i Wrthod Ymatebion Tendr 18

17.0 Gwrthdaro Buddiannau 18

18.0 Cyfrinachedd 19

19.0 Atal canfasio a chydgynllwynio 20

20.0 Cyhoeddusrwydd 20

ATODIADAU

Atodiad 1	-	Manyleb ar gyfer Tendro
Atodiad 2	-	Holiadur Dethol
Atodiad 3	-	Manylion Prisio
Atodiad 4	-	Ansawdd
Atodiad 5	-	Ffurflen y Tendr, Ffurflen y Tendr, Tystysgrif Atal Cydgynllwynio a Gwybodaeth Gyfrinachol
Atodiad 6	-	Ffurflen Gontract a Pholisïau Perthnasol

Diffiniadau

Yn y Pecyn Tendr hwn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae i'r termau canlynol yr ystyron a nodir isod:

- **Deddf** – yn cyfeirio at y Ddeddf Caffael 2023 (fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd) ac unrhyw reoliadau perthnasol yn ôl y gofynion hynny

- **Ymgeisydd** — unrhyw sefydliad, cwmni neu unigolyn sy'n cyflwyno Ymateb Tendr yn unol â'r Pecyn Tendr hwn.

- **Rhestr Rhagwaharddiadau Ganolog** – cofrestr gyhoeddus a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU sy'n rhestru cyflenwyr y mae eu hymddygiad neu amgylchiadau yn y gorffennol yn golygu na chaniateir iddynt neu o bosibl na chaniateir iddynt gymryd rhan mewn proses gaffael dan sylw neu ddyfarnu contractau cyhoeddus iddynt

- **Dyddiad Cau** – y dyddiad y pennir y dyddiad cau ar gyfer cais am eglurhad gan CSYM.

- **Gwybodaeth Gyfrinachol** — yr holl wybodaeth a ddatgelir gan y naill barti neu'r llall sydd wedi'i marcio'n gyfrinachol neu a fyddai'n rhesymol yn cael ei hystyried yn gyfrinachol oherwydd ei natur.

- **Contract** — y cytundeb cyfreithiol rwymol i'w wneud rhwng yr Awdurdod Contractio a'r Ymgeisydd llwyddiannus ar ôl cwblhau'r Broses Gaffael.

- **Pethau i'w Darparu** — yr holl nwyddau, gwasanaethau, allbynnau ac adroddiadau neu ddeunyddiau y mae'n ofynnol i'r Ymgeisydd Llwyddiannus eu darparu o dan y Contract.

- **Cytundeb Fframwaith** – Contract sy'n nodi'r telerau ac amodau cyffredinol ar gyfer dyfarnu Contractau yn ôl y gofyn yn y dyfodol heb gynnal Proses Gaffael lawn.

- **CSYM** – Cyngor Sir Ynys Môn

- **Cytundeb Fframwaith Agored** – math o Gytundeb Fframwaith y mae'n rhaid ei ailagor ar gyfer cystadleuaeth o leiaf unwaith yn y 3 blynedd gyntaf, unwaith yn y 5 mlynedd nesaf a bydd yn para am uchafswm o 8 mlynedd oni nodir yn wahanol yn y Pecyn Tendr hwn neu os caiff ei ddyfarnu i un cyflenwr ac yn yr achos hwnnw dim ond am gyfnod o 4 blynedd y gellir ei ddyfarnu.

- **Cyfrifon Banc Prosiectau** - cyfrifon banc wedi'u neilltuo gyda statws ymddiriedolaeth sy'n gweithredu fel dull ar gyfer gwneud taliadau i gadwyn gyflenwi. Nodyn Polisi Caffael Cymru (WPPN) 010: Cyfrifon banc prosiectau [HTML] | LLYW. CYMRU

- **Pris** — cyfanswm y swm sy'n daladwy i'r Ymgeisydd Llwyddiannus am gyflawni'r Contract, fel y nodir yn y Rhestr Brisiau.

- **Manylion Prisio** — y ddogfen sy'n dadansoddi'r Prisiau, gan gynnwys ardrethi, ffioedd, ac unrhyw dreuliau ad-daladwy.

- **Proses Gaffael** — y weithdrefn a gynhelir gan CSYM i ddewis yr Ymgeisydd Llwyddiannus yn unol â'r rheoliadau caffael perthnasol.

- **System Gaffael** – y system cwmwl a ddarperir gan Sell2Wales lle gellir dod o hyd i'r Pecyn Tendr, ceisiadau am eglurhad, gohebiaeth ac Ymatebion Tendr i'w cyflwyno.

- **Manyleb** — y disgrifiad manwl o'r nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith sy'n ofynnol gan CSYM, fel y nodir yn Atodiad 1 o'r Pecyn Tendr hwn.

- **Ymgeisydd Llwyddiannus** — yr Ymgeisydd y derbynnir ei Ymateb Tendr ac sy'n ymrwymo i'r Contract gyda CSYM.

- **Pecyn Tendr** — casglu'r holl ddogfennau a gyhoeddwyd gan CSYM sy'n nodi gofynion y Broses Gaffael, y rheolau sy'n rheoli'r Broses Gaffael, y wybodaeth sydd i'w darparu gan Ymgeiswyr, a'r telerau ac amodau a fydd yn berthnasol i'r Contract.

- **Ymateb Tendr** — y set gyflawn o ddogfennau, cynigion, datganiadau a gwybodaeth ategol a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd mewn ymateb i'r Pecyn Tendr hwn.

- **TUPE** - Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd ac unrhyw reoliadau a wneir yn ôl y gofynion hynny.

- **Diwrnod Gwaith** — unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul, neu ŵyl gyhoeddus yng Nghymru a Lloegr.

1.0 Cyflwyniad

1.1 Cyngor Sir Ynys Môn yw'r awdurdod lleol ar gyfer Ynys Môn, Cymru sy'n gwasanaethu tua 70,000 o drigolion.

1.2 Gweledigaeth CSYM yw creu Ynys Môn sy'n iach ac yn ffyniannus lle gall pobl ffynnu.

1.3 Er mwyn helpu i gyflawni ei weledigaeth, dyma amcanion strategol CSYM,

- Y Gymraeg – mwy o gyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.
- Gofal Cymdeithasol a Llesiant - darparu'r gefnogaeth briodol ar yr adeg iawn.
- Addysg – sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Tai – sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref.
- Economi – hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys.
- Newid yn yr Hinsawdd – ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030

2.0 Trosolwg o'r Tendr

2.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) ar hyn o bryd yn gwahodd Ymatebion Tendr ar gyfer darparu cymorth annibynnol aml-ddisgyblaeth mewn perthynas â datblygiad niwclear newydd yn Wylfa.

2.2 Sefydlwyd Rhaglen Ynys Ynni Cyngor Sir Ynys Môn yn 2011 i gefnogi cyfleoedd mawr ym maes ynni, seilwaith a datblygu economaidd ar Ynys Môn, gan gynnwys prosiectau ynni carbon isel megis datblygiad niwclear newydd yn Wylfa. Gan gydnabod pwysigrwydd strategol Wylfa fel safle ynni o arwyddocâd cenedlaethol, mae'r Rhaglen yn ceisio lliniaru unrhyw effeithiau amgylcheddol a gwneud y mwyaf o'r manteision economaidd, sgiliau, cadwyn gyflenwi a chymunedol a allai ddeillio o fuddsoddiad niwclear, ochr yn ochr â datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel eraill.

2.3 Mae'r Cyngor angen mynediad at gyngor a chymorth arbenigol annibynnol ar draws ystod eang o ddisgyblaethau er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau statudol, asesu cynigion datblygu, cynrychioli buddiannau lleol, cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau corfforaethol a democrataidd, ymgysylltu'n effeithiol drwy gydol prosesau cynllunio a chydsynio, a sicrhau'r manteision mwyaf posibl i gymunedau lleol. Bwriedir i'r contract ddarparu mynediad at arbenigedd mewn meysydd lle na ellir defnyddio trefniadau cymorth proffesiynol presennol y Cyngor oherwydd gwrthdaro buddiannau gwirioneddol, posibl neu ganfyddedig.

2.4 Bydd yn ofynnol i'r cyflenwr llwyddiannus ddarparu cymorth amlddisgyblaethol drwy gydol cylch bywyd y datblygiad arfaethedig, gan gynnwys ymgysylltu cyn ymgeisio, prosesau cynllunio a chydsynio, camau archwilio a phenderfynu, gweithredu a gweithgareddau ôl-ganiatâd. Gall y gwasanaethau gynnwys cyngor strategol ar gynllunio a chydsynio, asesiadau amgylcheddol a thechnegol, asesiadau o effeithiau economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg, cyngor ar fuddion cymunedol a chadwyni cyflenwi lleol, ymgysylltu â rhanddeiliaid, cymorth llywodraethu, cymorth yn ystod archwiliadau ac ymchwiliadau, a chyngor ar fonitro a chydymffurfiaeth ôl-ganiatâd. Bydd y cyflenwr llwyddiannus yn gweithio'n agos gyda Rhaglen Ynys Ynni'r Cyngor a gwasanaethau perthnasol eraill y Cyngor yn ôl yr angen.

2.5 Mae CSYM yn bwriadu penodi un (1) Ymgeisydd Llwyddiannus o ganlyniad i'r Broses Gaffael hon.

3.0 Cyfnod y Contract

3.1 Cyfnod cychwynnol y contract ydy 4 mlynedd.

3.2 Caiff CSYM ymestyn y contract am 4 mlynedd, yn ddibynnol ar gytundeb rhwng y ddau barti.

3.3 Bydd y Contract ar sail ad-hoc ac nid yw CSYM yn gwarantu unrhyw isafswm lefel neu werth y gwasanaethau gofynnol o dan y contract.

3.4 Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cadw'r hawl i ddyfarnu contractau newydd yn uniongyrchol i'r Cynigydd Llwyddiannus ar gyfer nwyddau, gwaith neu wasanaethau tebyg o fewn cyfnod o bum mlynedd o ddyddiad dyfarnu'r Contract hwn, yn unol â Pharagraff 8 o Atodlen 5 y Ddeddf.

4.0 Proses Ddethol

4.1 Bydd CSYM yn caffael y gwasanaethau gofynnol trwy ddefnyddio'r weithdrefn agored yn unol ag Adran 20 o'r Ddeddf.

5.0 Eglurhad

5.1 Dylid cyflwyno unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r Pecyn Tendro neu'r Broses Gaffael yn electronig trwy System Gaffael CSYM.

5.2 Dylid gwneud pob ymholiad a'i gyflwyno i CSYM heb fod yn hwyrach na 5 Diwrnod Gwaith cyn y Dyddiad Cau y cyfeirir ato ym mhwynt 6.1 isod.

5.3 Bydd CSYM yn ymdrechu i ateb pob ymholiad a wneir o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn y Dyddiad Cau.

5.4 Bydd yr holl ymholiadau a wneir gan Ymgeisydd yn ystod y Broses Gaffael yn cael eu cofnodi'n llawn a phan nad yw'r ymholiadau hynny o natur fasnachol gyfrinachol, bydd yr ymholiad ac ymateb CSYM i'r ymholiad yn cael eu rhannu â'r holl Ymgeiswyr.

5.5 Os yw Ymgeisydd yn dymuno i CSYM drin ymholiad fel un cyfrinachol a pheidio â rhannu'r ymholiad ac ymateb CSYM iddo, rhaid iddynt ddatgan hynny wrth gyflwyno'r ymholiad. Os yw CSYM o'r farn nad yw'r ymholiad yn gyfrinachol, bydd CSYM yn hysbysu'r Ymgeisydd o'i farn ac yn rhoi cyfle i'r Ymgeisydd dynnu ei ymholiad yn ôl. Os na chaiff ei dynnu'n ôl, bydd ymateb CSYM yn cael ei gyflwyno i bob Ymgeisydd.

5.6 Mae CSYM yn cadw'r hawl i ofyn am eglurhad gan Ymgeiswyr mewn perthynas ag unrhyw agweddau ar eu Hymateb Tendr yn ystod y cam gwerthuso er mwyn sicrhau bod yr holl Ymatebion Tendr yn cael eu gwerthuso'n deg. Disgwylir i ymgeiswyr ymateb yn brydlon i unrhyw geisiadau o'r fath. Gall methu ag ymateb i CSYM o fewn yr amserlen a bennir arwain at eithrio'r Ymgeisydd o'r broses.

5.7 Gellir gofyn i dendrwyr fynychu cyfweliad egluro tendr. Ni fydd y cyfweliad hwn yn cael ei werthuso na'i sgorio, ond fe'i defnyddir i gymedroli'r meini prawf gwerthuso perthnasol a aseswyd fel rhan o'r tendr.

5.8 Nid yw unrhyw gais am eglurhad neu wybodaeth ychwanegol gan CSYM yn gyfle i drafod, negodi neu wella elfennau o'r Ymateb Tendr, y Contract neu'r Broses Gaffael a dylid cyfyngu ymatebion i'r materion y mae CSYM wedi ceisio eglurhad neu wybodaeth ychwanegol arnynt.

5.9 Cynghorir ymgeiswyr i beidio â dibynnu ar gyfathrebiadau gan CSYM mewn perthynas â'r Pecyn Tendr neu'r broses gaffael oni bai eu bod yn cael eu gwneud yn unol â'r cyfarwyddiadau hyn.

6.0 Amserlenni a Chyflwyno

6.1 Rhaid cyflwyno Ymatebion Tendr erbyn hanner dydd ar 22/12/2026.

6.2 Rhaid cyflwyno Ymatebion Tendr yn electronig trwy System Gaffael CSYM.

6.3 Ni fydd unrhyw Ymatebion Tendr, cynigion neu ddogfennau ategol a dderbynnir ar ôl yr amser a'r dyddiad hwnnw yn cael eu hystyried i'w derbyn gan CSYM.

6.4 Gellir diwygio ac ailgyflwyno Ymatebion Tendr unrhyw adeg a chymaint o weithiau ag sydd angen cyn yr amser cau a'r dyddiad a nodir yn 6.1.

6.5 Rhaid i bob Ymateb Tendr fodloni'r gofynion canlynol:-

6.5.1 rhaid eu cyflwyno yn Gymraeg neu Saesneg ac ni fydd unrhyw Ymatebion Tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol nag Ymatebion Tendr a gyflwynir yn Saesneg.

6.5.2 rhaid ei brisio mewn punnoedd sterling ac yn cynnwys TAW.

6.5.3 ni ddylai fod yn amodol mewn unrhyw ffordd ac ni ddylai ddileu, diwygio neu wneud ychwanegiadau anawdurdodedig;

6.5.4 rhaid cynnwys yr holl ddogfennau fel y nodir yng nghymal 6.7;

6.5.5 rhaid cyflwyno'r holl ddogfennau a gynhwysir yn yr Ymateb Tendr ar ffurf Microsoft Word neu Excel yn unig oni nodir fel arall neu os rhoddwyd caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw i ddefnyddio fformat arall;

6.5.6 rhaid ei lofnodi gan gynrychiolydd awdurdodedig priodol o sefydliad yr Ymgeisydd;

6.5.7 Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r dogfennau tendr yn union fel y darperir, heb newid y fformat, y ffurflenni na'r cwestiynau. Gall unrhyw newidiadau, ychwanegiadau neu ddileu gwybodaeth anawdurdodedig arwain at wrthod neu ystyried bod y cais yn annilys; ac

6.5.8 Rhaid i'r Ymateb Tendr gynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â chyflenwi'r nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau gofynnol fel y manylir yn Atodiad 1: Manyleb.

6.6 Bydd methu â dilyn y cyfarwyddiadau a'r gofynion sy'n cynnwys fformat yr Ymatebion Tendr uchod yn arwain at wrthod yr Ymateb Tendr ac ni fydd Ymateb Tendr o'r fath yn mynd ymlaen i'r cam gwerthuso.

6.7 Rhaid i bob Ymateb Tendr gynnwys y canlynol:

i. Holiadur Dethol wedi'i gwblhau - Atodiad 2

ii. Manylion Prisio wedi'u cwblhau - Atodiad 3

iii. Dogfen Cyflwyno Ansawdd wedi'i chwblhau - Atodiad 4

iv. Dogfen Ffurflen Dendro wedi'i chwblhau - Atodiad 5

v. Curriculum Vitae (CVau) ar gyfer yr holl staff allweddol arfaethedig a fydd yn cael eu neulltuo i ddarparu gwasanaethau o dan y contract, gan ddangos cymwysterau, profiad ac arbenigedd perthnasl ym mhob maes

6.8 Dim ond un Ymateb Tendr y gall pob Ymgeisydd ei gyflwyno. Os bydd mwy nag un Tendr yn cael ei gyflwyno gan Ymgeisydd, bydd yr Ymateb Tendr gyda'r dyddiad diweddaraf yn cael ei gwerthuso a bydd y llall yn cael ei hanwybyddu.

7.0 Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial ("DA")

7.1 Nid yw CSYM yn gwahardd defnyddio DA wrth baratoi Ymatebion Tendr fodd bynnag, dim ond fel adnodd atodol y dylid defnyddio DA i helpu i ddrafftio'r cynnwys, ei wneud yn haws ei ddarllen, i'w brawf-ddarllen, neu i fireinio'r cyflwyniad. Ni ddylai ymgeiswyr ddibynnu ar DA i gynhyrchu neu ddrafftio rhannau sylweddol o Ymatebion Tendr ar eu rhan.

7.2 Disgwylir i ymgeiswyr baratoi ac ysgrifennu eu Hymatebion Tendr eu hunain a pharhau i fod yn gyfrifol am gywirdeb, cyflawnrwydd, dilysrwydd yr holl wybodaeth a ddarperir.

7.3 Pan fo DA wedi cael ei ddefnyddio i helpu i ddrafftio Ymateb Tendr, disgwylir i Ymgeiswyr ddatgelu hyn yn eu Hymateb Tendr a rhoi disgrifiad byr o sut ac i ba raddau y maent wedi'i ddefnyddio.

7.4 Ni chaniateir i ymgeiswyr, o dan unrhyw amgylchiadau, fewnbynnu, uwchlwytho, datgelu, neu fel arall sicrhau bod unrhyw wybodaeth, data, dogfennau, manylebau, neu ddeunyddiau eraill sy'n ymwneud â CSYM ar gael i unrhyw blatfform, rhaglen neu system DA oni bai eu bod wedi'u hawdurdodi'n benodol yn ysgrifenedig gan CSYM.

7.5 Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod unrhyw ddefnydd o DA yn cydymffurfio â'r holl rwymedigaethau perthnasol sy'n ymwneud â chyfrinachedd, diogelwch gwybodaeth, diogelu data, a hawliau eiddo deallusol. Gall methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn arwain at wrthod yr Ymateb Tendr.

8.0 Gwerthuso a Sgorio

8.1 Bydd y gwerthuso a'r sgorio yn cael eu cynnal gan banel sy'n cynnwys o leiaf tri aelod. Gall y panel gynnwys cyflogeion cymwys a phrofiadol Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM), rhanddeiliaid allweddol, defnyddwyr gwasanaeth a/neu gynghorwyr allanol.

8.2 Bydd y Contract yn cael ei ddyfarnu yn seiliedig ar y Tendr Mwyaf Manteisiol ("MAT"). Ni fydd y Contract o reidrwydd yn cael ei ddyfarnu i'r cynnig isaf a dderbyniwyd.

8.3 Mae CSYM yn cadw'r hawl i eithrio unrhyw Ymatebion Tendr pan fo CSYM, yn ôl ei ddisgresiwn ei hun, yn penderfynu bod y manylion prisio a gyflwynir yn gynnig anarferol o isel. Cyn anwybyddu ac eithrio'r Ymgeisydd ar y sail hon, bydd CSYM (yn unol ag adran 19 o'r Ddeddf):

a. yn hysbysu'r Ymgeisydd bod CSYM o'r farn bod y pris yn anarferol o isel; ac

b. yn rhoi cyfle rhesymol i'r Ymgeisydd ddangos y bydd yn gallu cyflawni'r Contract am y pris a gynigir.

Os yw'r Ymgeisydd yn gallu bodloni CSYM y bydd yn gallu cyflawni'r Contract am y pris a gynigir, ni chaiff CSYM ddiystyru neu eithrio'r Ymateb Tendr.

8.4 Bydd y contract yn cael ei ddyfarnu'n seiliedig ar y meini prawf pwysoli canlynol:

- Holiadur Dethol = Pasio neu Fethu
- Manylion Prisio = 30% (30 o farciau)
- Ansawdd = 70% (70 o farciau)
  - TEITL C1 = 40%
  - TEITL C2 = 30%
  - TEITL C3 = 30%

8.5 **Atodiad 2 -** Bydd **Holiadur Dethol** yn cael ei asesu yn gyntaf i ganfod a yw'r Ymgeisydd wedi pasio neu fethu'r meini prawf perthnasol. Mae'r cwestiynau yn nodi'n glir pa gwestiynau sy'n pasio/methu neu at ddibenion gwybodaeth yn unig. Os dyfernir marc 'methu' yn erbyn unrhyw faen prawf o fewn y meini prawf dethol, mae CSYM yn cadw'r hawl i anghymhwyso'r Ymgeisydd hwnnw o'r broses.

8.6 **Atodiad 3 –** Bydd y **Manylion Prisio** yn cael eu gwerthuso trwy roi 100% o'r marciau sydd ar gael i'r manylion prisio isaf sy'n cydymffurfio. Bydd pob manylion prisio eraill sy'n cydymffurfio yn derbyn 100% o'r marciau sydd ar gael minws y gwahaniaeth canrannol rhwng eu pris a gyflwynwyd a'r manylion prisio isaf sy'n cydymffurfio. Bydd sgoriau'n cael eu talgrynnu i fyny i 2 le degol.

8.7 **Atodiad 4 –** Bydd **ansawdd** yn cael ei sgorio yn unol â'r matrics sgorio canlynol:

Sgôr	Egwyddor Sgorio
5	**Rhagorol** – Gallu arbennig gan yr Ymgeisydd i ddangos bod ganddo'r gallu, y ddealltwriaeth, y profiad, y sgiliau, yr adnoddau a'r mesurau ansawdd perthnasol sydd eu hangen i fodloni'r gofyniad hwn, gyda thystiolaeth i gefnogi'r ymateb.
4	**Da** – Gallu uwch na'r cyfartaledd gan yr Ymgeisydd i ddangos bod ganddo'r gallu, y ddealltwriaeth, y profiad, y sgiliau, yr adnoddau a'r

	mesurau ansawdd perthnasol sydd eu hangen i fodloni'r gofyniad hwn, gyda thystiolaeth i gefnogi'r ymateb.
3	**Cymedrol** – Yr Ymgeisydd yn gallu dangos bod ganddo'r gallu, y ddealltwriaeth, y profiad, y sgiliau, yr adnoddau a'r mesurau ansawdd perthnasol sydd eu hangen i fodloni'r gofyniad hwn, gyda thystiolaeth i gefnogi'r ymateb.
2	**Gweddol** – Rhywfaint o amheuaeth ynghylch gallu, dealltwriaeth, profiad, sgiliau, adnoddau a mesurau ansawdd perthnasol yr Ymgeisydd sydd eu hangen i fodloni'r gofyniad hwn, gyda thystiolaeth i gefnogi'r ymateb.
1	**Gwael** – Amheuaeth sylweddol ynghylch gallu, dealltwriaeth, profiad, sgiliau, adnoddau a mesurau ansawdd perthnasol yr Ymgeisydd sydd eu hangen i fodloni'r gofyniad hwn, gyda thystiolaeth i gefnogi'r ymateb.
0	**Dim ymateb** – Y cwestiwn heb ei ateb / nid oes ymateb wedi'i gyflwyno.

Bydd y sgôr a roddir yn cael ei rannu â chyfanswm nifer y marciau sydd ar gael (5) a'i luosi â phwysoliad y cwestiwn h.y. os mai pwysoliad y cwestiwn yw 20%, bydd sgôr o 5 yn rhoi'r sgôr wedi'i bwysoli o 20%, bydd sgôr o 3 yn rhoi sgôr wedi'i bwysoli o 12% ac ati.

Ni ddylai ymatebion i bob cwestiwn fod yn fwy na'r cyfrif geiriau a nodir ar gyfer pob cwestiwn unigol. Ni fydd unrhyw eiriau dros y cyfrif geiriau perthnasol yn cael eu hystyried. Ar ddiwedd pob cwestiwn, dylai Ymgeiswyr nodi cyfanswm nifer y geiriau ar gyfer y cwestiwn gan gynnwys geiriau a ddefnyddir mewn penawdau, tablau, modelau a graffeg. Ni fydd atodiadau ychwanegol yn cael eu hystyried oni bai eu bod yn cael eu caniatáu yn benodol yn y cwestiwn.

Os rhoddir sgôr gwerthuso o 1 neu lai i unrhyw gwestiwn ansawdd, bydd CSYM yn eithrio'r Ymgeisydd o'r broses.

8.8 Yna ychwanegir y sgoriau o'r broses i werthuso prisiau ac ansawdd i roi sgôr gyffredinol allan o 100 marc (100%). Bydd CSYM yn penodi'r Ymgeisydd cyffredinol sy'n cael y sgôr uchaf fel yr Ymgeisydd Llwyddiannus.

8.9 Pan fydd dau neu fwy o Ymgeiswyr yn rhannu'r un cyfanswm sgôr uchaf, bydd yr Ymgeisydd Llwyddiannus yn cael ei bennu trwy ddefnyddio'r drefn flaenoriaeth ganlynol:

8.9.1 Yn gyntaf, bydd yr Ymgeisydd gyda'r sgôr ansawdd cyffredinol uchaf yn cael ei ddewis fel yr Ymgeisydd Llwyddiannus.

8.9.2 Os yw dau neu fwy o'r Ymgeiswyr hefyd yn rhannu'r un sgôr ansawdd cyffredinol, bydd yr Ymgeisydd gyda'r manylion prisio isaf yn cael ei ystyried yn Ymgeisydd Llwyddiannus.

8.10 Mae dyfarnu'r Contract yn amodol ar broses gymeradwyo ffurfiol CSYM. Hyd nes y caiff yr holl gymeradwyaethau angenrheidiol eu derbyn, yr hysbysiadau perthnasol eu cyflwyno a'r cyfnod segur ei gwblhau (os yw'n berthnasol), ni fydd unrhyw Gontract yn cael ei lunio.

8.11 Bydd CSYM yn cynnal gwerthusiad ariannol o'r Ymgeisydd Llwyddiannus yn dilyn y broses werthuso i sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion ariannol angenrheidiol.

8.12 Dyma'r gofynion ariannol angenrheidiol ar gyfer y Broses Gaffael hon,

8.12.1 Cymhareb Prawf Asid o 1 neu fwy

8.12.2 Y gallu i ddangos trosiant sy'n bodloni'r trothwy (isafswm) o £1 miliwn.

9.0 Amserlen

9.1 Mae'r amserlen ganlynol yn amserlen fras ar gyfer y broses dendro. Mae CSYM yn cadw'r hawl i newid unrhyw ddyddiadau sy'n ofynnol.

Cam	**Cam**	**Dyddiad**
Tendr	Cyhoeddi Tendr	26/11/2026
	Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau am eglurhad gan yr Ymgeisydd	5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cau 12: 00 15/12/2026
	Dyddiad cau i CSYM ymateb i geisiadau am eglurhad gan yr Ymgeisydd	3 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cau 12: 00

		17/12/2026
	Dyddiad Cau Cyflwyno'r Tendr	12: 00 21/12/2026
	Cwblhau'r broses o Werthuso'r Ceisiadau	Wythnos yn dechrau 11 / 01 / 2027
	Proses Gyfweld	wythnos yn dechrau 18 / 01 / 2027
Gwobr	Hysbysu pob Ymgeisydd a aseswyd ynghylch y dyfarniad	wythnos yn dechrau 25 / 01 / 2027
	Cyhoeddi'r Hysbysiad Dyfarnu Contract a dechrau'r Cyfnod Segur	wythnos yn dechrau 25 / 01 / 2027
	Diwedd y Cyfnod Segur	(8 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad uchod) AA: MM 08/02/2027
Contract	Rhoi'r Contract a'i Anfon	wythnos yn dechrau 08/02/2027

	Amcangyfrif o Ddyddiad Dechrau'r Contract	01/03/2027
	Cyhoeddi Hysbysiad Manylion y Contract	O fewn 30 diwrnod i'r dyddiad yr ymrwymir i'r Contract.

10.0 Ffurf y Contract

10.1 Mae Ffurf y Contract y mae CSYM yn bwriadu ei defnyddio wedi'i hatodi yn Atodiad 6. Trwy ddychwelyd Ffurflen Dendr wedi'i llofnodi fel rhan o'ch Ymateb Tendr, bernir bod yr Ymgeiswyr wedi derbyn yr holl ddogfennau a restrir yng Nghymal 10 – Ffurf y Contract heb drafod na gwneud newidiadau pellach.

10.2 Rhaid i ymgeiswyr ymgyfarwyddo â'r Contract a bod yn sicr bod y telerau'n dderbyniol cyn cyflwyno eich Ymateb Tendr gan na chaniateir unrhyw ddiwygiadau i'r Contract ar unrhyw gam, naill ai cyn, ar neu ar ôl y dyddiad cau a nodir yng nghymal 6.1. Gall gwrthod ymrwymo i Gontract gan yr Ymgeisydd Llwyddiannus arwain at ddirymu'r cam o ddyfarnu'r contract am fethu â chydymffurfio â'r Pecyn Tendr.

10.3 Mae CSYM yn cadw'r hawl i wneud newidiadau i'r dogfennau hyn lle bo angen er mwyn teilwra'r Ffurflen Gontract i delerau penodol y Broses Gaffael hon.

10.4 Bydd y contract sy'n deillio o hyn yn cynnwys,

10.4.1 Ffurf y Contract

10.4.2 Atodiad 1 - Manyleb

10.4.3 Ymateb tendr y bidiwr llwyddiannus

10.5 Mae CSYM hefyd yn disgwyl i'r Ymgeisydd Llwyddiannus ddarparu'r gwasanaethau gofynnol yn unol â'r Polisïau canlynol,

11.0 Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 ("TUPE")

11.1 Tynnir sylw'r Ymgeiswyr at TUPE sy'n berthnasol i drosglwyddo ymgymeriadau a dyfarnu contractau gwasanaeth.

11.2 Mae CSYM yn credu bod TUPE yn annhebygol o fod yn berthnasol i'r Contract hwn os dyfernir y Contract i Ymgeisydd heblaw'r darparwr gwasanaeth presennol. Fodd bynnag, cyfrifoldeb yr Ymgeisydd yw ystyried a yw TUPE yn berthnasol a'r canlyniadau iddynt os mai nhw yw'r Ymgeisydd Llwyddiannus.

11.3 Dylai ymgeiswyr ofyn am eu cyngor cyfreithiol eu hunain ynghylch a fydd TUPE yn berthnasol a'r goblygiadau ariannol ar gyfer eu cais.

12.0 Diogelu a Chaethwasiaeth Fodern

12.1 Bydd y Cynigydd Llwyddiannus yn cydymffurfio â phob deddfwriaeth diogelu, cyflogaeth a chaethwasiaeth fodern berthnasol a chyda Pholisi Diogelu CSYM. Rhaid i bob personél sy'n ymwneud â chyflawni'r Contract ddeall eu cyfrifoldeb i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl a chael eu hyfforddi i adnabod ac adrodd am unrhyw gam-drin, esgeulustod, cam fanteisio, caethwasiaeth fodern neu fasnachu pobl gwirioneddol neu a amheuir.

12.2 Bydd yr Ymgeisydd Llwyddiannus yn cynnal polisïau, gweithdrefnau, trefniadau diwydrwydd dyladwy a hyfforddiant priodol, ac yn cymryd camau rhesymol i atal caethwasiaeth fodern, masnachu mewn pobl ac ecsbloetio o fewn ei sefydliad a'i gadwyni cyflenwi.

12.3 Gall CSYM, ar unrhyw adeg yn ystod y Contract, ofyn am dystiolaeth o gydymffurfio â'r cymal hwn. Gellir ystyried methu â chydymffurfio fel toriad sylweddol o'r Contract.

13.0 Addasiadau i'r Contract

13.1 Mae CSYM yn cadw'r hawl i addasu'r Contract yn unol â'r Ddeddf.

14.0 Rhybuddion ac Ymwadiadau

14.1 Er y credir bod y wybodaeth a gynhwysir yn y Pecyn Tendr hwn yn gywir ar adeg ei chyhoeddi, ni fydd CSYM a'i gynghorwyr, nac unrhyw awdurdodau dyfarnu eraill yn derbyn unrhyw atebolrwydd am ei chywirdeb, ei digonolrwydd neu ei chyflawnrwydd, ac ni roddir unrhyw warant ddatganedig a goblygedig. Mae'r eithriad hwn yn ymestyn i atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddatganiad, barn neu gasgliad a gynhwysir yn y Pecyn Tendr hwn neu unrhyw hepgoriad ohono ac mewn perthynas ag unrhyw gyfathrebiad ysgrifenedig neu lafar arall a drosglwyddir (neu sydd ar gael fel arall) i unrhyw Ymgeisydd. Nid yw'r eithriad hwn yn ymestyn i unrhyw gamliwio twyllodrus a wneir gan neu ar ran CSYM.

14.2 Os yw Ymgeisydd yn bwriadu ymrwymo i Gontract gyda CSYM, rhaid iddo ddibynnu ar ei ymholiadau ei hun ac ar y telerau ac amodau a nodir yn y Contract(au) (fel a phan gaiff ei weithredu'n derfynol), yn amodol ar y cyfyngiadau a bennir ynddo.

14.3 Ni ddylid ystyried cyhoeddi'r Pecyn Tendr hwn, nac unrhyw un o'r wybodaeth a gyflwynir ynddo, fel ymrwymiad neu gynrychiolaeth ar ran CSYM (neu unrhyw berson arall) i ymrwymo i drefniant cytundebol.

14.4 Mae CSYM yn cadw'r hawl i:

- ganslo, diwygio, oedi a pheidio â dyfarnu unrhyw Gontract;
- derbyn neu wrthod unrhyw un a phob Ymateb Tendr;
- rhoi'r gorau i'r Broses Gaffael;
- cyhoeddi newidiadau, addasiadau neu wybodaeth ychwanegol (gan gynnwys yr Amserlen) sy'n ymwneud â'r Broses Gaffael gan gynnwys y Pecyn Tendr hwn;
- ail-wneud neu ail-gynnal unrhyw ran o'r Broses Gaffael hon ar yr un sail neu ar sail arall.

Ni fydd CSYM yn atebol am unrhyw golledion gan yr Ymgeisydd o dan unrhyw amgylchiadau ac eithrio y rhai na ellir eu heithrio drwy gyfraith.

14.5 Disgwylir i Ymgeiswyr baratoi eu Hymateb Tendr yn unol â chyfarwyddiadau'r Pecyn Tendr a'r wybodaeth a ddisgrifir yn y Fanyleb yn Atodiad 1. Ni fydd CSYM yn atebol am unrhyw gostau, treuliau a rhwymedigaethau y mae Ymgeiswyr yn eu hwynebu mewn cysylltiad â pharatoi a chyflwyno Ymateb Tendr, sut bynnag fo'r costau hynny'n codi ac yn cynnwys os yw'r Broses Gaffael yn cael ei therfynu.

14.6 Dylai ymgeiswyr nodi bod unrhyw werthoedd neu faint y contract a ddarperir yn amcangyfrifon ac fe'u rhoddir er gwybodaeth ac arweiniad yn unig ac ni fydd CSYM wedi'i ymrwymo gan amcangyfrifon o'r fath.

15.0 Gwarantau

15.1 Wrth gyflwyno Tendr ac yn gyffredinol cymryd rhan yn y Broses Gaffael hon, mae'r Ymgeisydd yn gwarantu, yn cynrychioli ac yn ymrwymo i CSYM:

- ei fod yn deall ac wedi cydymffurfio â'r amodau a nodir yn y Pecyn Tendr hwn;
- bod yr holl wybodaeth, sylwadau a materion eraill a gyfathrebir (boed yn ysgrifenedig neu fel arall) i CSYM gan yr Ymgeisydd, ei staff neu ei asiantau mewn cysylltiad â'r broses gaffael neu sy'n deillio o'r broses gaffael yn wir, yn gyflawn ac yn gywir ym mhob agwedd, ar y dyddiad y'u cyfathrebwyd ac ar ddyddiad cyflwyno'r Ymateb Tendr;

- ei fod wedi gwneud ei ymchwiliadau ei hun ac wedi ymgymryd â'i ymchwil a'i ddiwydrwydd dyladwy ei hun, ac wedi bodloni ei hun mewn perthynas â'r holl faterion (boed yn wirioneddol neu'n bosibl) sy'n ymwneud â'r gwahoddiad ac nid yw'n dibynnu ar unrhyw wybodaeth, sylwadau neu ragdybiaeth a allai fod wedi'i wneud gan neu ar ran CSYM (ac eithrio unrhyw wybodaeth sy'n cael ei gwarantu'n benodol gan CSYM); a

- bod ganddo bŵer ac awdurdod llawn i gyflwyno Ymateb Tendr ac i gyflawni'r rhwymedigaethau mewn perthynas â'r contract a bydd, os gofynnir amdano, yn cyflwyno tystiolaeth o'r fath yn brydlon i CSYM.

16.0 Hawl i Wrthod Ymatebion Tendr

16.1 Mae CSYM yn cadw'r hawl yn ôl ei ddisgresiwn i eithrio unrhyw Dendrau yn yr amgylchiadau canlynol:

16.2 bod Tendr yn cael ei gyflwyno'n hwyr, yn anghyflawn, neu wedi'i gwblhau'n anghywir, yn methu â bodloni gofynion cyflwyno CSYM fel y nodir yn y Pecyn Tendr neu sy'n groes mewn unrhyw ffordd arall i delerau ac amodau'r Pecyn Tendr neu ddogfennau cysylltiedig;

16.3 pan fo manylion prisio yr Ymateb Tendr yn anarferol o isel, ar ôl i CSYM hysbysu'r Ymgeisydd yn unol ag adran 19 o'r Deddf ei fod o'r farn bod y pris yn anarferol o isel a rhoi cyfle rhesymol i'r Ymgeisydd ddangos y bydd yn gallu cadw at y pris a gynigir, os nad yw'r Ymgeisydd wedi dangos ei fod yn gallu bodloni CSYM y bydd yn gallu cyflawni'r contract am y pris a gynigir;

16.4 yn unol a adran 26 o'r Deddf, pan fo'r Ymgeisydd yn gyflenwr eithriedig neu gyflenwr wedi'i eithrio yn rhinwedd bod person cysylltiedig yn gyflenwr eithriedig o fewn ystyr adrannau 57 a 58 o'r Ddeddf; neu

16.5 os yw'r Ymgeisydd ar y Rhestr Rhagwaharddiadau Ganolog.

17.0 Gwrthdaro Buddiannau

17.1 Mae ymgeiswyr yn gyfrifol am sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau uniongyrchol neu anuniongyrchol yn bodoli (boed yn bersonol, ariannol neu fel arall) rhwng yr Ymgeisydd, ei weithwyr a'i gynghorwyr, a CSYM, ei weithwyr a'i gynghorwyr a allai roi mantais annheg i'r Ymgeisydd. Rhaid i ymgeiswyr hysbysu CSYM ar unwaith am unrhyw wrthdaro buddiannau p'un a ydynt yn bosibl, yn wirioneddol neu'n ganfyddedig.

17.2 Mae CSYM yn cadw'r hawl i:

17.2.1 Eithrio Ymgeisydd sy'n methu â hysbysu'r CSYM am wrthdaro buddiannau canfyddedig, gwirioneddol neu bosibl, neu os oes gwrthdaro buddiannau gwirioneddol yn bodoli sy'n golygu ei bod yn anochel bod gan yr Ymgeisydd fantais annheg o gymharu ag Ymgeiswyr eraill.

17.2.2 Eithrio Ymgeisydd sy'n methu â chymryd camau rhesymol a bennir gan CSYM i liniaru unrhyw wrthdaro buddiannau, gan gynnwys ymrwymo i gytundeb gwrthdaro buddiannau.

18.0 Cyfrinachedd

18.1 Mae'r holl wybodaeth a ddarperir gan CSYM i Ymgeiswyr (gan gynnwys yn y Pecyn Tendr hwn a phob dogfen arall sy'n ymwneud â'r Broses Gaffael) yn eiddo deallusol i CSYM ac mae, ac eithrio i'r graddau sydd ar gael i'r cyhoedd, yn Wybodaeth Gyfrinachol. Felly, mae hyn yn golygu y dylai Ymgeiswyr:

- beidio â chopïo, atgynhyrchu, dosbarthu na throsglwyddo i unrhyw berson arall ar unrhyw adeg (ac eithrio i gynghorwyr proffesiynol, is-gontractwyr at yr unig ddiben o baratoi Ymateb Tendr a bod yr unigolion hynny'n ymrwymo i gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol ar yr un telerau ag o dan y Gwahoddiad i Dendro hwn);

- ddim yn defnyddio'r wybodaeth at unrhyw ddiben heblaw at ddibenion paratoi a chyflwyno (neu benderfynu a ddylid paratoi a chyflwyno) Ymateb Tendr;

- sicrhau bod yr holl staff a chynghorwyr proffesiynol sy'n cael y wybodaeth ar sail angen gwybod yn ymwybodol o'r dyletswyddau cyfrinachedd yn y ddarpariaeth hon;

- ar gais CSYM, dileu neu ddychwelyd copïau o wybodaeth sy'n perthyn i CSYM a ddim yn cadw copi (gellir cadw un copi os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith).

18.2 Fel corff cyhoeddus, mae CSYM yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd) ("FOIA") a Deddf Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd) ("EIR"), yn ogystal â bod yn ddarostyngedig i wahanol bolisïau tryloywder a gofynion cyfreithiol y sector cyhoeddus, gan gynnwys gosod hysbysiadau dyfarnu contract ar GwerthwchiGymru.

18.3 Felly, dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y gall CSYM ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn cysylltiad â'r Broses Gaffael hon, neu mewn cysylltiad ag unrhyw gontract a ddyfarnwyd, oni bai bod CSYM yn penderfynu (yn ôl ei ddisgresiwn llwyr) bod un o'r eithriadau statudol o dan y FOIA, yr EIR neu adran 94 o'r Ddeddf yn berthnasol. Bydd ceisiadau am wybodaeth a chymhwyso unrhyw eithriadau yn cael eu hystyried fesul achos. Trwy gymryd rhan yn y broses gaffael hon, mae Ymgeiswyr yn cytuno i ddatgelu neu gyhoeddi gwybodaeth o'r fath gan CSYM.

18.4 Gall ymgeiswyr ddynodi unrhyw wybodaeth a ddarperir fel rhan o'u hymateb tendr neu fel arall mewn cysylltiad â'r broses gaffael fel gwybodaeth cyfrinachol neu fasnachol sensitif trwy ei nodi'n glir fel y cyfryw i CSYM yn Atodiad 5. Ni fydd marciau amddiffynnol cyffredinol ar y ddogfen gyfan yn ddigonol. Er nad yw dynodi deunydd fel cyfrinachol neu fasnachol sensitif neu gyfwerth yn gwarantu peidio â datgelu, bydd CSYM yn ystyried hyn fel rhan o unrhyw benderfyniad datgelu.

19.0 Atal canfasio a chydgynllwynio

19.1 Gall unrhyw ymgais gan Ymgeiswyr neu eu cynghorwyr i ddylanwadu ar y broses dyfarnu contract mewn unrhyw ffordd arwain at anghymhwyso'r Ymgeisydd. Yn benodol, gall Ymgeiswyr gael eu hanghymhwyso (heb ragfarnu unrhyw atebolrwydd troseddol y gall ymddygiad o'r fath ei achosi neu rhwymedïau sifil sydd ar gael i CSYM) os ydynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar unrhyw adeg:

19.1.1 yn llunio neu ddiwygio cynnwys eu Hymateb Tendr yn unol ag unrhyw gytundeb neu drefniant gydag unrhyw berson arall, ac eithrio mewn ewyllys da gyda pherson sy'n bartner arfaethedig, cyflenwr, aelod consortiwm neu ddarparwr cyllid.

19.1.2 Ymrwymo i unrhyw gytundeb neu drefniant gydag unrhyw berson arall ynghylch ffurf neu gynnwys unrhyw Ymateb Tendr arall neu gynnig talu unrhyw swm o arian neu gydnabyddiaeth werthfawr i unrhyw berson i wneud newidiadau i ffurf neu gynnwys unrhyw Ymateb Tendr arall.

20.0 Cyhoeddusrwydd

20.1 Ni fydd unrhyw Ymgeisydd yn ymgymryd ag unrhyw weithgareddau cyhoeddusrwydd gydag unrhyw ran o'r cyfryngau mewn perthynas â'r Contract neu'r Broses Gaffael heb gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw gan CSYM, gan gynnwys cytundeb ynghylch fformat a chynnwys unrhyw gyhoeddusrwydd.